**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

323/51

**ASTUDIAETHAU BUSNES**

**BS3**

P.M. DYDD LLUN, 4 Mehefin 2007

(1 awr)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **y ddau** gwestiwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr yn ôl ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

**1.** Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Mae Carys wedi bod yn rhedeg gwesty 'Ger y Môr' yn nhref lan môr boblogaidd Llandudno am y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Mae ei gŵr Richard wedi gweithio yn un o'r banciau lleol. Yn 57 oed roedd ef yn wynebu **colli gwaith** *(redundancy)* am fod y gangen o'r banc yn cael ei chau. Nid oedd yn dymuno ymddeol na gweithio yn y gwesty. Teimlai, fodd bynnag, y gallai wynebu gwahaniaethu oherwydd ei oedran ac, o ganlyniad, y byddai cael swydd amser llawn yn anodd. Penderfynodd Richard chwilio am waith rhan-amser er iddo wybod bod gweithwyr rhan-amser yn aml yn derbyn cyflogau is.

Fel pob gwesty arall yn yr ardal, mae 'Ger y Môr' yn dibynnu'n helaeth ar weithwyr rhan-amser ac mae rhai o'r rhain wedi dod o'r gwledydd hynny sydd newydd ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Carys wedi bod yn cael nifer o anawsterau. Mae'r mwyaf o'r rhain yn ymwneud â staffio. Mae trosiant staff ac absenoliaeth wedi bod yn uchel.

*(a)* Beth yw ystyr y term *colli gwaith (redundancy)*? [2]

*(b)* Eglurwch, gydag enghreifftiau, ystyr 'gwahaniaethu yn y gwaith'. [4]

*(c)* Eglurwch pam mae gwaith rhan-amser yn fuddiol *(beneficial)* i gyflogwyr fel Carys **ac** i weithwyr fel Richard. [6]

*(ch)* Gan gyfeirio at ddamcaniaeth Herzberg, ystyriwch y farn y gall gweithwyr yn y diwydiant gwestai fod yn anodd eu cymell *(motivate)*. [8]

**2.** Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Cychwynnwyd *Optimeyes Cyf* gan ddau frawd yn 1973 i weithgynhyrchu a chyflenwi lensiau a fframiau ar gyfer sbectol. Ar y cychwyn roedd y busnes yn cyflogi tri pherson yn unig ond mae wedi tyfu'n aruthrol. Erbyn hyn mae ganddo wyth deg o weithwyr ac mae'n dosbarthu ei gynhyrchion ar raddfa genedlaethol. Adran fach ond pwysig iawn yn *Optimeyes Cyf* yw'r adran sy'n cyflawni **ymchwil a datblygu**.

Ar hyn o bryd mae *Optimeyes Cyf* yn mwynhau cyfnod arbennig o lwyddiannus. Mae ei lyfrau archebion yn llawn ac mae'n falch o fod yn **gweithredu ar ei allu cynhyrchu llawn** *(operating at full capacity)*. Fodd bynnag, gall gweithredu ar eu gallu cynhyrchu llawn greu problemau i fusnesau.

Mae *Optimeyes Cyf* yn ymwybodol o'r ffaith yr effeithir ar ei lwyddiant gan newidiadau yn yr amgylchedd allanol y mae'n gweithredu ynddo. Mae'r rhain yn cynnwys polisi newydd y llywodraeth, cynnydd mewn cystadleuaeth a **newid technolegol**.

*(a)* Eglurwch swyddogaeth *ymchwil a datblygu* mewn busnes gweithgynhyrchu fel *Optimeyes Cyf.* [4]

*(b)* Eglurwch y manteision a'r anfanteision i *Optimeyes Cyf* o *weithredu ar ei allu cynhyrchu llawn.* [8]

*(c)* Ystyriwch effaith *newid technolegol* ar fusnes gweithgynhyrchu fel *Optimeyes Cyf.* [8]